



Cyngor Cymuned Pentir

Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned Pentir

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymuned Pentir.

I gydymffurfio a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaeth.

Cynllun a Pholisi Cyngor Pentir

1. Ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol a all ddeillio o'u gweithgareddau.
2. Yn rheoli ei gweithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.
3. I leihau cynhyrchiad gwastraff i'r hyn sydd yn ymarferol ac i ail ddefnyddio neu ail-gylchu ble mae'n briodol.
4. Lleihau gwastraff papur, drwy e-bostio copiâu yn lle eu hargraffu. Argraffu dogfennau ddwy ochr pan mae angen copi papur.
5. I leihau, a ble mae'n bosib, i osgoi llygredd.
6. I fod yn effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol, drwy reoli defnydd o ddŵr ac ynni.
7. Cynnal ymweliad safle yn rheolaidd er mwyn nodi a gwirio arbedion gwastraff, fel tap y fynwent yn gollwng dŵr.
8. Rhoi gofyn i gontractwyr y Cyngor am bolisi amgylcheddol fel cymhwyster wrth ystyried gwaith cytundebol.
9. I godi ymwybyddiaeth aelodau'r Cyngor a'r contractwyr o effeithiau amgylcheddol yn deillio o weithgareddau a pherfformiad ac i hyrwyddo ymarfer da unigolion.
10. Lleihau defnydd o blastig.
11. Defnyddio deunydd a llafur lleol i leihau'r effaith amgylcheddol o deithio.
12. Plannu coeden newydd yn lle unrhyw goeden sy'n cwmpo a'i thorri i lawr.
13. Plannu amrywiaeth o flodau sy'n denu peillwyr mewn mannau arbennig.
14. Ystyried bioamrywiaeth wrth drafod ceisiadau cynllunio a cheisiadau nawdd.
15. Creu ardaloedd bywyd gwyllt mewn mannau arbennig.
16. Cefnogi a chodi ymwybyddiaeth y gymuned i wirfoddoli i gynnal mannau gwyrdd a chynnal a chadw bioamrywiaeth.
17. Cydweithio gyda mudiadau e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod camau gweithredol yn cael eu dilyn mewn achosion fel, llyfogydd, llygru afonydd a thipio anghyfreithlon.
18. Defnyddio plaladdwyr ond lle mae gwir angen ei reoli, fel rhywogaethau estron goresgynnol fel Canclwm Siapaneaidd.

Arwyddwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd:

.....

11-05-2023